



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Hinsawdd ac Ynni (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021

**DYDDIAD** 22 Mawrth 2021

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

### **Rheoliadau Hinsawdd ac Ynni (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021**

Mae Rheoliadau 2021 yn dirymu'r deddfau uniongyrchol canlynol gan yr Undeb Ewropeaidd:

#### **Rheoliadau'r UE:**

- Rheoliad (UE) Rhif 525/2013 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 21 Mai 2013 ar fecanwaith ar gyfer monitro ac adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ar gyfer adrodd am wybodaeth arall ar lefel genedlaethol ac Undeb sy'n berthnasol i newid yn yr hinsawdd a diddymu Penderfyniad Rhif 280/2004/EC;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 666/2014, 12 Mawrth 2014, gan sefydlu gofynion sylweddol ar gyfer system ddyfeisiau'r Undeb ac ystyried newidiadau yn y posibiladau cynhesu byd-eang a chanllawiau rhestrol y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 525/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 749/2014, 30 Mehefin 2014 ar strwythur, fformat, prosesau cyflwyno ac adolygu gwybodaeth a gofnodwyd gan Aelod-wladwriaethau yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 525/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Rheoliad (UE) 2018/841 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 30 Mai 2018 ar gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr a symud o ddefnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth yn fframwaith hinsawdd ac ynni 2030, a diwygio Rheoliad (UE) Rhif 525/2013 a Phenderfyniad Rhif 529/2013/EU;
- Rheoliad (UE) 2018/842 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 30 Mai 2018 ar ostyngiadau blynyddol rhwymol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gan Aelod-wladwriaethau rhwng 2021 a 2030 sy'n cyfrannu at weithredu ar yr hinsawdd i gyflawni ymrwymadau o dan Gytundeb Paris a diwygio Rheoliad (UE) Rhif 525/2013;
- Rheoliad (UE) 2018/1999 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 11 Rhagfyr 2018 ar Lywodraethu'r Undeb Ynni a Gweithredu hinsawdd, diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 663/2009 a (EC) Rhif 715/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau 94/22/EC, 98/70/EC, 2009/31/EC, 2009/73/EC, 2010/31/EU, 2012/27/EU a 2013/30/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor,

Cyfarwyddbau'r Cyngor 2009/119/EC a (UE) 2015/652 a diddymu Rheoliad (UE) Rhif 525/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1208 ar 7 Awst 2020 ar strwythur, fformat, prosesau cyflwyno ac adolygu gwybodaeth a gofnodwyd gan Aelod-wladwriaethau yn unol â Rheoliad (UE) 2018/1999 Senedd Ewrop a'r Cyngor a diddymu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 749/2014; a
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1294 ar 15 Medi 2020 ar fecanwaith ariannu ynni adnewyddadwy'r Undeb.

### **Penderfyniadau'r UE:**

- Penderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 23 Ebrill 2009 ar ymdrechion Aelod-wladwriaethau i leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr i fodloni ymrwymadau lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Gymuned hyd at 2020;
- Penderfyniad y Comisiwn 2013/162/EU ar 26 Mawrth 2013 ar bennu dyraniadau allyriadau blynyddol Aelod-wladwriaethau ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2020 yn unol â Penderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Penderfyniad Rhif 529/2013/EU Senedd Ewrop a Chyngor 21 Mai 2013 ar reolau cyfrifyddu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a symud yn deillio o weithgareddau sy'n ymwneud â defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth ac ar wybodaeth am gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r weithgareddau hynny;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/634/EU ar 31 Hydref 2013 ar yr addasiadau i ddyraniadau allyriadau blynyddol Aelod-wladwriaethau ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2020 yn unol â Penderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Penderfyniad y Cyngor (UE) 2015/1339 ar 13 Gorffennaf 2015 ar y casgliad, ar ran yr Undeb Ewropeaidd, o Welliant Doha i Brotocol Kyoto i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a chyflawni ymrwymadau ar y cyd o dan y Ddeddf honno;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2016/2132/EU ar 5 Rhagfyr 2016 ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth ar gyfer y flwyddyn 2013 a gwmpesir gan Benderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Penderfyniad (UE) 2017/684 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 5 Ebrill 2017 ar sefydlu mecanwaith cyfnewid gwybodaeth mewn perthynas â chytundebau rhynglywodraethol ac offerynnau nad ydynt yn gyfrwymol rhwng Aelod-wladwriaethau a thrydydd gwledydd ym maes ynni, a diddymu Penderfyniad Rhif 994/2012/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2017/1015/EU ar 15 Mehefin 2017 ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwmpesir gan Benderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2014 ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth;
- Penderfyniad y Comisiwn (UE) 2017/1471 ar 10 Awst 2017 yn diwygio Penderfyniad 2013/162/EU i newid dyraniadau allyriadau blynyddol aelod-wladwriaethau ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2377 ar 15 Rhagfyr 2017 ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwmpesir gan Benderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2015 ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1855 ar 27 Tachwedd 2018 ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwmpesir gan Benderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2016 ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth;

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2005 ar 29 Tachwedd 2019 ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwmpesir gan Benderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2017 ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth; a
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1834 ar 3 Rhagfyr 2020 ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwmpesir gan Benderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018 ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth.

## **Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2021 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

### **Diben y gwelliannau**

Diben Rheoliadau 2021 yw dirymu cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, ym meysydd newid yn yr hinsawdd ac ynni, nad oes ganddi unrhyw gais ymarferol mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig ("y DU"), gan nad yw'r DU bellach yn Aelod-wladwriaeth. Bydd y DU yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau hinsawdd domestig a rhyngwladol drwy ei fframwaith cyfreithiol ei hun ar newid yn yr hinsawdd ddomestig.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant, ar gael yma:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-climate-and-energy-revocation-eu-exit-regulations-2021?cachebust=1616158855>

### **Pam y rhoddwyd caniatâd**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau hyn i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl i'r DU adael yr UE, drwy ddiwygio neu ddirymu darpariaethau a fyddai fel arall yn amhosibl eu gweithredu.